

Gellir rhyddhau'r polisi hwn yn amodol ar gyfundeb Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant (10/11/22) a / neu'r Bwrdd Lawn (13/12/22)

This policy may be released subject to Finance, People and Culture Committee (10/11/22) and / or Full Board (13/12/22) agreement



Teitl: Title:	Polisi Ffioedd Dysgu Tuition Fees Policy
Fersiwn: Version	3
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Students

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Welsh and E&D Impact Assessment Stage 1
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Cyfarwyddwr Cyllid Director of Finance		
Ymgynghoriad / Consultation:			
Dyddiad cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	<i>Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date</i>	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	19/05/21	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	-
	Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	2021	
	Corff Llywodraethu / Governing Body:	23/06/21	
Dyddiad Adolygu: Review Date:	16/06/24		

Gellir rhyddhau'r polisi hwn yn amodol ar gytundeb Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant (10/11/22) a / neu'r Bwrdd Lawn (13/12/22)

This policy may be released subject to Finance, People and Culture Committee (10/11/22) and / or Full Board (13/12/22) agreement

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Tabl Cynnwys

Polisi Ffioedd Dysgu

1. Cwmpas	3
2. Datganiadau Polisi	3
3. Egwyddorion Cyffredinol	3
4. Dysgwyr Addysg Bellach	4
5. Gostyngiadau Ffioedd	4
6. Rhandaliadau	4
7. Ad-daliadau	5
8. Dysgwyr Addysg Uwch	5
9. Dulliau Talu	5

1. **Cwmpas**

- 1.1. Yn unol â'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2002 (y Ddeddf), mae gan y coleg ddyletswydd trwy Lywodraeth Cymru (LIC) i sicrhau:
 - 1.1.1. Ei fod yn darparu cyfleusterau priodol ar gyfer: addysg (heblaw addysg uwch) sy'n addas i anghenion yr unigolion hynny sy'n hŷn na'r oedran gorfodol ond nad ydynt yn 19 oed.
 - 1.1.2. Ei fod yn darparu cyfleusterau rhesymol ar gyfer: addysg (heblaw addysg uwch) sy'n addas i anghenion yr unigolion hynny sy'n 19 oed, a'r hyfforddiant a'r amser hamdden wedi'i drefnu cysylltiedig fel y'i diffinnir yn y Ddeddf.
- 1.2. Wrth wneud hynny, bydd y coleg yn ceisio darparu rhestr o ffioedd a gostyngiadau a fydd yn annog cyfranogaeth a chynhwysiad myfyrwyr mewn addysg a hyfforddiant, wrth sicrhau bod y coleg yn amddiffyn ei asedau, yn defnyddio cronfeydd cyhoeddus yn y modd gorau, ac yn sicrhau diogelwch ariannol.
- 1.3. Bydd y polisi yn cynorthwyo gyda chyrсияu unigol hefyd, a'n darpariaeth gyffredinol, gan gynnal hyfywedd ariannol.
- 1.4. Mae angen y polisi ffioedd hwn er mwyn sicrhau dull teg a chyson ynghylch codi ffioedd ar ddysgwyr Coleg Cambria.
- 1.5. Mae ein cyrsiau llawn amser am ddim i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, er efallai y bydd angen i ddysgwyr brynu cit, cyfarpar a gwisg ar gyfer cyrsiau penodol. Os nad yw dysgwr yn wladolyn y DU/AEE gyda statws sefydlog neu os nad ydynt wedi byw yn y DU am y 3 blynedd diwethaf efallai y bydd gofyn iddynt dalu ffioedd cwrs i astudio gyda ni. Bydd hyn yn cael ei asesu'n unigol yn ystod y broses derbyniadau.

2. **Datganiadau Polisi**

- 2.1. Bydd y Polisi Ffioedd Dysgu ac Ad-dalu hwn yn rhoi gwybod i staff, myfyrwyr ac unrhyw randdeiliaid eraill sut mae ffioedd cyrsiau ac ad-daliadau yn cael eu rheoli a'u darparu. Bydd yn fodd o gyfathrebu sut mae nodau cynlluniau strategol a gweithredol y coleg yn gysylltiedig â ffioedd. Mae'r coleg yn defnyddio canlyniadau ei werthusiad er mwyn cynllunio'n strategol at y dyfodol a chynllunio gwelliannau parhaus ar gyfer y ffioedd a'r weinyddiaeth.

3. **Egwyddorion Cyffredinol**

- 3.1. Bydd ffioedd cyrsiau yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a byddant ar gael ar wefan y coleg. Codir ffioedd cyrsiau ar gyfer bob blwyddyn o astudio yn y sefydliad.

- 3.2. Bydd y coleg yn ymdrechu i gynnal pob dosbarth ar amser ac yn unol â'r amserlen. Mewn achosion lle bydd rhaid canslo dosbarthiadau i ddiogelu myfyrwyr a staff oherwydd gweithredoedd naturiol neu drydydd parti, ni fydd y coleg yn rhoi ad-daliadau.
- 3.3. Os yw'r coleg yn diddymu cwrs, bydd ad-daliadau llawn ar gael.
- 3.4. Mae'n rhaid cyfeirio unrhyw ddysgwyr sy'n iau nag 16 oed ar 1 Awst y flwyddyn academaidd honno at aelod Tîm y Gyfarwyddiaeth Cwricwlwm cyn trafod cofrestru gyda'r dysgwr.
- 3.5. Rhaid talu unrhyw ffioedd wrth gofrestru, oni bai fod y coleg yn cytuno fel arall. Bydd dysgwyr sydd yn cofrestru ar gwrs yn y coleg ac sydd yn methu â thalu yn cael eu gwahardd o'r cyrsiau.
- 3.6. Gellir talu ffioedd gydag arian parod, siec, cardiau debyd/credyd, anfoneb cyflogwr (wedi'i gefnogi gyda llythyr awdurdodi) a Chyllid Myfyrwyr Cymru/Student Loans Company yn dilyn hysbysiad ariannol gan fyfyrwr.
- 3.7. Bydd y ffioedd yn cael eu casglu ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, ond bydd hynny'n parhau yn ôl y gofyn i gymryd i ystyriaeth amseroedd dechrau gwahanol gyrsiau a chyrsgiau y gellir eu dilyn unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn. Ni fydd gan staff addysgu ran mewn casglu ffioedd na thrin arian, ond bydd disgwyl iddynt rannu gwybodaeth am ffioedd i ddysgwyr yn y dosbarth.
- 3.8. Nid yw ffioedd cyrsiau/blaendaliadau yn drosglwyddadwy yn awtomatig o un flwyddyn/tymor i'r llall nac o un unigolyn i'r llall.
- 3.9. Mae'r coleg yn cadw'r hawl i drosglwyddo unrhyw ddyled orddyledus i asiantaeth casglu dyled trydydd parti.
- 3.10. Bydd cyrsiau Cymraeg i Oedolion sy'n cael eu darparu gan y Coleg ar ran Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg yn dilyn egwyddorion *Polisi Ffioedd a Gostyngiadau'r* Ganolfan Genedlaethol.

4. **Dysgwyr Addysg Bellach**

- 4.1. Nid yw Sefydliadau Addysg Bellach yn cael codi ffioedd addysgu ar ddysgwyr sy'n iau na 19 oed ar gyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae dysgwyr rhan-amser sy'n iau na 19 oed yn gymwys i dalu ffioedd arholiadau a chofrestru.

5. **Gostyngiadau Ffioedd**

- 5.1. Ni fydd ffioedd yn cael eu codi ar ddysgwr AB llawn amser Coleg Cambria sy'n dilyn cwrs Mathemateg a Saesneg TGAU.
- 5.2. Ar gyfer unrhyw gwrs rhan amser addysg bellach, oni bai bod y cwrs rhan amser yn rhan o'r Rhaglen Maes Dysgu llawn amser, efallai y bydd ffioedd yn daladwy.
- 5.3. Ni chodir ffioedd dysgu ar rai dan 19 oed ond codir unrhyw ffioedd ychwanegol arnynt. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am gostau ychwanegol ar www.cambria.ac.uk

- 5.4. Efallai bydd dysgwyr yn gymwys am gynllun Hepgor Ffioedd, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau ar y cwrs. Mae rhagor o fanylion am gynlluniau Hepgor Ffioedd ar gael ar www.cambria.ac.uk
- 5.5. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod cynlluniau Hepgor Ffioedd yn gymwys ar gyfer Ffioedd Dysgu yn unig. Mae'r holl ffioedd eraill yn parhau'n daladwy.
- 5.6. NID YW cynllun Hepgor Ffioedd yn berthnasol i gyrsiau masnachol penodedig neu gyrsiau ffioedd uwch lle bo'r dysgwr yn hŷn na 19 oed.
- 5.7. Efallai bod gan y dysgwyr hynny nad ydynt yn gymwys am gynllun Hepgor Ffioedd hawl i gael Cymorth Ariannol arall. Gallwch gael manylion am y rhain ar www.cambria.ac.uk
- 5.8. Mae ffioedd yn daladwy ar ddechrau bob blwyddyn astudio fel arfer. Mae eithriadau i'r rheol gyffredinol hon wedi'u nodi yn y prospectws.
- 5.9. Bydd rhaid i ddysgwyr gyflwyno tystiolaeth ffurfiol i ddangos eu bod yn gymwys ar gyfer ffioedd rhatach wrth gofrestru. Nid oes gostyngiadau ar gael ar gyfer rhai cyrsiau – nodir yr eithriadau hyn yn y canllaw cyrsiau.

6. Rhandaliadau

- 6.1. Gellir talu ffioedd cyrsiau dros £400 mewn rhandaliadau - gofynnir i ddysgwyr dalu 25% wrth gofrestru a thri thaliad dilynol o 25%.
- 6.2. Pan fo hyd y cwrs yn 10 wythnos neu'n fyrrach, mae'n rhaid i fyfyrwr dalu'n llawn wrth gofrestru.
- 6.3. Rhaid cytuno ar gynlluniau talu gohiriedig a'u llofnodi gan y myfyriwr a staff y coleg cyn cofrestru a dechrau dosbarthiadau.
- 6.4. Nid yw rhandaliadau ar gael i ddysgwyr sydd wedi cael eu tynnu'n ôl o gwrs am beidio â thalu ffioedd.

7. Ad-daliadau

7.1. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys manylion am amgylchiadau lle bo ad-daliad ffioedd yn berthnasol:

Rheswm	Ad-daliad	Nodiadau
Dysgwr sy'n tynnu'n ôl o gwrs 30+ wythnos o hyd yn y 4 wythnos gyntaf.	Ad-daliad (gweler y nodiadau gyferbyn)	Ad-daliad gan dynnu £50 o dâl gweinyddol. Bydd y dysgwr hefyd yn gymwys i dalu ffioedd arholiadau/cofrestru os yw'r coleg wedi'u talu eisoes.
Y cwrs yn cael ei ganslo gan Goleg Cambria.	Ad-daliad (gweler y nodiadau gyferbyn)	Ni fydd tâl gweinyddol yn daladwy.
Ar gyfer cyrsiau sy'n llai na 30 wythnos	Dim ad-daliad (gweler y nodiadau gyferbyn)	Dim ad-daliad oni bai bod y cwrs yn cael ei ganslo gan Goleg Cambria
Mae'r dysgwr yn tynnu'n ôl cyn i'r cwrs ddechrau'n llawn.	Ad-daliad (gweler y nodiadau gyferbyn)	Bydd ad-daliad gan dynnu £50 o dal gweinyddol, yn cael ei ystyried yn dilyn cais ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Cyllid. Rhaid i'r cais hwn gael ei anfon o leiaf pum diwrnod cyn dyddiad dechrau'r cwrs.
Mae'r dysgwr yn tynnu'n ôl ar ôl pedair wythnos	Nac oes	

8. Dysgwyr Addysg Uwch

- 8.1. Ar gyfer cyrsiau AU sy'n gweithredu fel rhan o gytundeb rhyddfrait, bydd rheoliadau ariannol y sefydliad partner yn berthnasol.
- 8.2. Codir ffioedd dysgu blynyddol ar ddysgwyr. Rhaid i ddysgwyr gytuno ar y dull o dalu ffioedd dysgu wrth gofrestru, a phan fydd y coleg yn cadarnhau'r gweithdrefnau a'r amserlenni angenrheidiol ar gyfer talu. Nid oes gostyngiadau ar gael i ddysgwyr Addysg Uwch.

9. Dulliau Talu

9.1. Cyllid Myfyrwyr - Grantiau / Benthyciadau Ffioedd Dysgu

- 9.1.1. Wrth gofrestru, rhaid i'r coleg gael copi o lythyr hysbysu ariannol gan fyfyrwyr AU llawn amser a myfyrwyr rhan amser y flwyddyn gyntaf sy'n cael cymorth ariannol. Mae'r hysbysiad yn nodi'r cyfraniad a dalwyd gan Gyllid Myfyrwyr Cymru / Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr tuag at ffioedd dysgu myfyriwr. Mae angen talu unrhyw ffioedd sy'n weddill naill ai'n llawn neu drwy randaliadau, yn dibynnu ar y swm.
- 9.1.2. Mae angen i fyfyrwyr rhan amser sy'n parhau â'u cyrsiau ac sy'n gwneud cais am gymorth ariannol ddod â'u ffurflen gais PTG1 wedi'i chwblhau'n rhannol gyda nhw wrth gofrestru (bydd y coleg yn cwblhau Adran 6 y ffurflen hon). Ar ôl gwneud cais, mae'n rhaid i fyfyrwyr roi copi o'r hysbysiad ariannol i'r coleg o fewn 60 diwrnod ar ôl cofrestru. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r swm o grant ffioedd y bydd y myfyriwr yn ei gael. Mae angen talu unrhyw ffioedd sy'n weddill naill ai'n llawn neu drwy randaliadau, yn dibynnu ar y swm. Bydd methu â darparu'r hysbysiad ariannol o fewn y 60 diwrnod yn golygu bod y myfyriwr yn atebol am dalu'r ffi dysgu lawn.

9.2. Noddwyr

- 9.2.1. Os yw noddwr yn talu'r ffioedd, rhaid i'r dysgwr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a ardystiwyd gan y noddwr wrth gofrestru. Os bydd y noddwr yn gwrthod talu'n ddiweddarach, bydd y dysgwr yn atebol am unrhyw ffi sy'n ddyledus. Bydd gan noddwyr 30 diwrnod o ddyddiad yr anfoneb i'w thalu. Os na fydd y noddwr wedi talu neu'n gwrthod talu, anfonir anfoneb at y myfyriwr ar ôl 30 diwrnod arall. Ni chynigir rhandaliadau i Noddwyr dysgwyr Addysg Uwch.

9.3. **PLA**

9.3.1. Caiff ffioedd cyrsiau sy'n cael eu talu trwy Gyfrif Dysgu Personol (PLA) eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac felly ni fydd y dysgwr unigol yn cael taliad nac yn gwneud taliad. Caiff ffioedd eu talu gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i'r coleg ac felly ni fydd ad-daliadau yn cael eu talu.

9.4. **Ad-daliadau / Addasu Ffioedd oherwydd Tynnu'n Ôl**

- 9.4.1. Mae'r coleg yn cydnabod, yn dilyn cofrestru, efallai y bydd dysgwyr yn dymuno peidio â dilyn eu hastudiaeth oherwydd nifer o resymau gwahanol, nad oeddent efallai'n amlwg cyn cofrestru. I gydnabod hyn, bydd gan fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl o fewn pedair wythnos o ddechrau eu cwrs hawl i gael ad-daliad llawn o'r ffioedd yn amodol nad oes unrhyw dystiolaeth o dwyll na gweithredoedd anghyfreithlon na dyledion eraill yn ddyledus i Goleg Cambria.
- 9.4.2. Os yw'r myfyriwr yn tynnu'n ôl ar ôl y pythefnos cyntaf, mae eu rhwymedigaeth i dalu'r ffioedd yn dibynnu ar statws eu ffi, ac ar reoliadau eu prifysgol rhyddfrait a'r dyddiad y tynnwyd yn ôl. Caiff dysgwyr eu cynghori i wirio eu cymhwysedd gwirioneddol gyda'r coleg/prifysgol rhyddfrait.
- 9.4.3. Cyfrifoldeb dysgwyr yw sicrhau eu bod yn cael eu tynnu'n ôl o'r rhaglen, trwy lenwi ffurflen dynnu'n ôl gyda thiwtor y cwrs. Gan fod y ffi a godir yn dibynnu ar y dyddiad presenoldeb diwethaf, dylid rhoi sylw penodol i'r dyddiad y mae'r dysgwr yn tynnu'n ôl arno.
- 9.4.4. Dylid anfon Ceisiadau am Ad-daliad yn ysgrifenedig at yr Adran Gyllid, Coleg Cambria neu at y bartner prifysgol os telir ffioedd yn uniongyrchol.
- 9.4.5. Dim ond i'r sawl dalodd y ffi yn wreiddiol y bydd ad-daliadau ffioedd dysgu yn cael eu talu. Os talwyd y ffioedd gan riant, priod, partner, noddwr neu gyflogwr, yna bydd yr ad-daliad yn cael ei dalu i'r unigolyn perthnasol a dalodd y ffi.
- 9.4.6. Ni fydd gan ddysgwyr sydd wedi cymryd benthyciad ffioedd dysgu hawl i ad-daliad uniongyrchol gan y coleg. Bydd Coleg Cambria yn hysbysu Cyllid Myfyrwyr Cymru / Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am atebolrwydd ffioedd dysgu'r myfyriwr a bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn diwygio atebolrwydd benthyciad ffioedd dysgu'r dysgwr yn unol â hynny.

9.5. **Ffioedd cyrsiau heb eu talu**

- 9.5.1. Efallai y bydd gofyn i ddysgwyr nad ydynt yn talu ffioedd eu cwrs adael eu cwrs. Os yw dysgwyr yn methu â thalu unrhyw daliadau a wnaed gan y Coleg ar eu rhan am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddarperir, gallai hyn arwain at gymryd camau llys i adennill y symiau sy'n ddyledus. Gellir trosglwyddo dyledion i asiantaeth adennill dyledion i'w casglu.

- 9.5.2. Gall methu â thalu ffioedd cyrsiau hefyd arwain at wahardd myfyriwr rhag sefyll arholiadau nes bod yr holl ffioedd dyledus wedi cael eu talu.

9.6. Cyrsiau Masnachol

- 9.6.1. Rhaid i unigolion dalu ffioedd cyrsiau pan fyddant yn neilltuo lle ar y cwrs.
9.6.2. Nid oes unrhyw gynlluniau gostyngiadau na rhandaliadau ar gael ar gyfer cyrsiau masnachol.
9.6.3. Os caiff lle ar gwrs ei ganslo o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad dechrau, ni fydd y coleg yn gallu ad-dalu'r ffi.

9.7. Canslo / aildrefnu cyrsiau

- 9.7.1. Os yw'r coleg yn canslo cwrs, neu nid yw'r cwrs yn dechrau oherwydd maint grŵp anhyfyw, gwneir pob ymdrech i gynnig cwrs arall. Os nad oes cwrs addas ar gael, rhoddir ad-daliad llawn.
9.7.2. Os yw'r coleg yn aildrefnu cwrs at amser, diwrnod neu safle gwahanol ac nad yw hyn yn gyfleus i'r dysgwr, rhoddir ad-daliad llawn.
9.7.3. Ni roddir ad-daliad os newidir y tiwtor.

Gellir rhyddhau'r polisi hwn yn amodol ar gytundeb Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant (10/11/22) a / neu'r Bwrdd Lawn (13/12/22)

This policy may be released subject to Finance, People and Culture Committee (10/11/22) and / or Full Board (13/12/22) agreement